OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 1779 (Cy.193)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*15 Gorffennaf 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 3(3), (4), (5) a (9) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Medi 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ysgol sy'n dechrau ar 1 Medi 2003 neu wedyn.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) 1997

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau)1997(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(2), yn lle "£12,227" rhoddir "£12,508".

(3) Yn lle rheoliad 2(3)(a) a (b) rhoddir —

"(a) £77 where the relevant income does not exceed £11,626; and

(b) £40 where that income exceeds £11,626 but does not exceed £12,508."

(4) Yn rheoliad 4 —

(a) ym mharagraff (3), yn lle "£11,381" rhoddir "£11,639"; a

(b) ym mharagraff (4) —

(**1**) 1997 p.59. Diwygiwyd adran 3 gan adran 130 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31).
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1997/1969, a ddiwygiwyd gan O.S. 1998/1585, O.S. 1999/1505, O.S. 2000/1939 (Cy.137), O.S. 2001/2708 (Cy.227) ac O.S. 2002/1880 (Cy.189).